**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Ceredigion**
**Public Services Board**

Caru•Love Ceredigion

**Cyfarfod 41**
**2 Rhagfyr 2024, 14:00-16:00**

**Cyfarfod Rhithiol drwy Teams**
**COFNODION**

| **Yn bresennol:** | |
|---|---|
| Hazel Lloyd Lubran (HLL) | Cadeirydd, CAVO |
| Gavin Bown (GB) | Is-gadeirydd, Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Iwan Cray (IC) | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Y Cynghorydd John Davies (JD) | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Y Prif Arolygydd Steve Davies (SD) | Heddlu Dyfed-Powys |
| Megan Harris (MH) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Steve Thomas (ST) | Prifysgol Aberystwyth |
| Y Cynghorydd Bryan Davies | Cyngor Sir Ceredigion |
| Barry Rees | Cyngor Sir Ceredigion |
| Vanessa Cashmore (VC) | Coleg Ceredigion / Coleg Sir Gâr |
| Pat Smith (PS) | Yr Adran Waith a Phensiynau |
| George Holloway (GH) | Un Llais Cymru |
| **Hefyd yn bresennol:** | |
| Y Cynghorydd Catrin Davies (CD) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Y Cynghorydd Wyn Evans (WE) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Y Cynghorydd Matthew Vaux (MV) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Greg Jones (GJ) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Carys Lloyd-Jones (CLJ) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Ann Elias (AE) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Caitlin Theodorou (CT) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Cathryn Morgan (CM) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Amy Richmond-Jones | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Ceri Rees (CR) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Geinor Jones (GeJ) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Claire Bryant (CB) | Heddlu Dyfed-Powys |
| Jessica Thomas (JT) | Heddlu Dyfed-Powys |
| **Tîm Cymorth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:** | |
| Diana Davies (DD) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Tim Bray (TB) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Sara Dafydd (SD) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Steffan Gruffudd (SG) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Teleri Elias | Cyngor Sir Ceredigion *(Cofnodion)* |
| Sioned Bowen | Cyngor Sir Ceredigion (Cyfieithu) |
| Carwyn Williams | Cyngor Sir Ceredigion (Cyfieithu) |

| **41.1** | **Ymddiheuriadau, Cyflwyniadau a Datgeliadau o Ddiddordeb** |
|---|---|

Croesawodd y Cadeirydd Hazel Lloyd Lubran (HLL) bawb i'r cyfarfod.
**Nodwyd ymddiheuriadau gan y canlynol:**
Elen James – Cyngor Sir Ceredigion

Alun Williams – Cyngor Sir Ceredigion

| 41.2 | **Cofnodion cyfarfod blaenorol BGC Ceredigion – 16 Medi 2024** |
|---|---|

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16.09.2024 fel rhai cywir.

| 41.3 | **Cwblhau camau gweithredu a materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol ar 16 Medi 2024** |
|---|---|

Cwblhawyd yr holl gamau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol ar 16.09.24 neu eu cynnwys ar yr agenda.

| **Log Gweithredu – 16 Medi 2024** | |
|---|---|
| **Cwblhawyd** – Y Tîm Partneriaethau i gylchredeg e-bost yn dilyn y cyfarfod yn gofyn am wirfoddolwyr gyda'r nod o gynnull Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ystyried Gwaith Teg ymhellach. | Tîm Partneriaethau |
| **Cwblhawyd** – Y Tîm Partneriaethau i greu cyflwyniad byr ar gyfer hyrwyddo Adroddiad Blynyddol y Cynllun Llesiant Lleol ar y cyfryngau cymdeithasol, a rhannu'r ddogfen derfynol unwaith y bydd y crynodeb wedi'i gyfieithu. | Tîm Partneriaethau |
| **Cwblhawyd** – Y Tîm Partneriaethau i rannu'r adborth a gasglwyd yn nigwyddiad Diwrnod Chwarae RAY gydag aelodau'r BGC. | Tîm Partneriaethau |
| **Cwblhawyd** – Trafodaethau pellach i'w cynnal rhwng Timothy Bray a Chyd-Gynhyrchu Rhwydwaith Cymru ynghylch hwyluso gweithdai ARNH. | Tim Bray<br>Mandy Williams<br>Mererid Lewis |
| **Cwblhawyd** – Y Tîm Partneriaethau i gylchredeg cyflwyniad Cymunedau Oed-gyfeillgar a'r amserlen ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn 2024. | Tîm Partneriaethau |

| 41.4 | **Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-28: Adolygu'r Traciwr Gweithgaredd (Cyfarfod 41)** |
|---|---|

Cyflwynodd Tim Bray (TB) y Traciwr Gweithgareddau i'r Bwrdd, a oedd wedi'i ddiweddaru a'i gylchredeg gyda'r adroddiadau cyn y cyfarfod. Er hwylustod, tynnwyd sylw at y meysydd a diweddarwyd, a gofynnwyd i bartneriaid nodi unrhyw sylwadau neu adborth mewn perthynas â'r diweddariadau a amlygwyd yn ystod y cyfarfod. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau nac adborth - bydd y Traciwr Gweithgareddau yn cael ei ddiweddaru ymhellach a'i gylchredeg cyn cyfarfod nesaf y BGC.

| 41.5 | **Digwyddiadau Gwybodaeth y Cynllun Lles** |
|---|---|

Dosbarthwyd y Rhestr Digwyddiadau gyda'r adroddiadau cyn y cyfarfod. Mae'n manylu ar ddigwyddiadau blaenorol a fynychwyd eisoes gan aelodau BGC, yn ogystal â digwyddiadau'r dyfodol sy'n cynnig cyfleoedd i hyrwyddo gwaith y Bwrdd a'r Cynllun Llesiant Lleol. Cyflwynodd Sara Dafydd (SD) gopi ddiwygiedig o'r Rhestr Digwyddiadau, ac eglurodd fod y Rhestr yn ddogfen weithredol. Er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r Rhestr, gofynnodd SD i bartneriaid hysbysu'r Tîm Partneriaethau am unrhyw ddigwyddiadau sydd ar y gorwel y gallai'r BGC fynychu, fel y gellid eu hychwanegu at y Rhestr i'w hystyried. Mewn cyfarfod diweddar o Gadeiryddion BGC, cynigiwyd a chofnodwyd digwyddiadau ychwanegol ar y Rhestr Digwyddiadau, gan gynnwys Sioe Iechyd a Lles Llambed a gynhelir yng Nghanolfan Llesiant Llanbedr Pont Steffan ar 26 Chwefror 2025. Mae'r digwyddiad yn cael ei gefnogi gan Grŵp Cyflawni Llesiant Llambed, ac mae cynrychiolwyr y Grŵp Cyflawni yn bwriadu bod yn bresennol ar y dydd.

Nododd TB eu bod yn ystyried defnyddio calendr Google i wella'r ffurf a'r defnydd o'r Rhestr Digwyddiadau, gan ei fod wedi'i ddefnyddio'n effeithiol yn ddiweddar gan y Tîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant i fapio dyddiadau pwysig. Dangosodd Cathryn Morgan (CM) galendr Google ar y sgrin er budd yr aelodau. Byddai'r fformat hwn yn caniatáu i unigolion a wahoddwyd weld a chynnwys manylion yn uniongyrchol ar y calendr, a chytunwyd y byddai'n adnodd gwerthfawr ar gyfer dogfennu a chylchredeg digwyddiadau.

**Cam Gweithredu: Cadw’r eitem Digwyddiadau Gwybodaeth y Cynllun Lles fel eitem Agenda sefydlog, a'r Tîm Partneriaethau i ystyried a ellir defnyddio calendr Google yn lle'r ddogfen Rhestr Digwyddiadau.**

| 41.6 | Trafodaeth Teithio Iach – Dull Rhanbarthol a Siarter Teithio Iach |
|---|---|

Cyflwynodd Ann Elias (AE) ei hun fel Rheolwr Prosiectau a Rhaglenni Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol TraCC, Tyfu Canolbarth Cymru (TCC). Mae’r Cydbwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru (CC) yn gyfrifol am:

1. Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh)
2. Cynllunio Datblygu Strategol
3. Lles Economaidd

Mae'n ofynnol i CSC ddatblygu polisïau trafnidiaeth ar gyfer hyrwyddo ac annog trafnidiaeth ddiogel, integredig, effeithlon ac economaidd i’r Sir, yn fewnol ac oddi yno. Bydd pob Awdurdod Priffyrdd (Cynghorau Ceredigion a Phowys) yn darparu rhaglen o ymyriadau ar gyfer gweithredu'r polisïau.

Mae 4 maes ffocws sy'n cwmpasu Teithio Iach – Teithio Llesol, Trafnidiaeth Gyhoeddus, Datgarboneiddio Trafnidiaeth, a Newid Ymddygiad. Cadarnhaodd AE y bwriedir cymeradwyo’r Cynllun Teithio Llesol ym mis Ionawr 2025, cyn ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Chwefror neu fis Mawrth. Mae rhai mentrau sydd eisoes ar y gweill yn cynnwys Llwybrau Teithio Llesol yn Aberystwyth, Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan, cyfnewidfeydd trafnidiaeth gyhoeddus a sgriniau gwybodaeth ddigidol, yn ogystal â bysiau trydan a phwyntiau gwefru. Gall partneriaid gofrestru i dderbyn cylchlythyr misol gan Dîm TCC trwy gysylltu â growingmidwales@ceredigion.gov.uk.

**Cam Gweithredu: Ann Elias i rannu manylion ar gyfer ymgynghoriad y Cynllun Teithio Llesol; y Tîm Partneriaethau i gylchredeg i aelodau BGC.**

**Cam Gweithredu: Gwahodd Ann Elias i gyfarfod o'r BGC yn y dyfodol i gyflwyno’r wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Teithio Llesol yn dilyn yr ymgynghoriad.**

Dywedodd y Cynghorydd Bryan Davies (BD) fod yr Awdurdod Lleol (ALl) wedi cysylltu â Trafnidiaeth Cymru (TrC) i drafod cyfyngiadau'r rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghanolbarth Cymru. Awgrymodd BD y dylai grantiau Llywodraeth Cymru (LlC) a fwriedir ar gyfer seilwaith rheilffyrdd gael eu dyrannu i wasanaethau bysiau yn yr ardaloedd gwledig hyn.

Cyflwynodd Ceri Rees (CR) ei hun fel Rheolwr Datblygu Trafnidiaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIPHDd). Yn 2022, comisiynodd BIPHDd yr Ymddiriedolaeth Garbon i gynnal asesiad cynhwysfawr o'i ôl troed carbon. Dangosodd dadansoddiad fod Caffael yn cyfrif am 58% o ôl troed carbon y sefydliad, ac yna Defnydd Adeiladu (23%) a Thrafnidiaeth (19%). Yn seiliedig ar y Dadansoddiad Ôl Troed Carbon, datblygwyd y Cynllun Trafnidiaeth a Hygyrchedd BIPHDd ar gyfer 2024-2034. Cynhaliwyd Arolwg Teithio Staff yn 2023 hefyd, a ddangosodd fod 87% o staff yn gyrru eu cerbyd eu hunain i'r gwaith.

Rhoddodd CR ddiweddariad ar Siarter Teithio Iach a gyflwynwyd gan Dr Tom Porter *(Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro)*, sydd bellach wedi'i gyflwyno ledled Cymru. Mae'r Siarter yn nodi cyfres o 17 ymrwymiad ac yn rhoi cyfle i'r Sector Cyhoeddus ddangos arweinyddiaeth o safbwynt Teithio cynaliadwy a datgarboneiddio. Caiff ymrwymiadau eu monitro drwy Asesiad Cynnydd Blynyddol ar draws amserlen 3 blynedd. Cadarnhaodd CR fod BIPHDd wedi ymrwymo i'r Siarter ym mis Mehefin 2024, a rhoddodd grynodeb o rai o'r mentrau sydd wedi'u datblygu gan gynnwys treialu Cynllun Teithio Staff Am Ddim, cynllun beicio i'r gwaith, cynlluniau teithio cynaliadwy, a chefnogi gweithio hyblyg. Tîm Iechyd y Cyhoedd oedd yn arwain ar y Siarter Teithio Iach Canolbarth a Gorllewin Cymru yn wreiddiol, ond cadarnhaodd CR nad oes gan y Tîm y capasiti bellach i arwain wrth fynd yn eu blaen. Gofynnwyd a oedd diddordeb gan y BGC i gydlynu'r fenter yn y dyfodol. Nododd TB, er bod y gwaith hwn wedi'i leoli’n wreiddiol o dan gyfrifoldebau’r Grŵp Cyflenwi Hinsawdd a Natur, nid oes Cadeirydd presennol gan y Grŵp, ers ymadawiad y Cadeirydd blaenorol

DRAFT

ym mis Hydref.

Cafwyd trafodaeth ynghylch newid ymddygiad, gyda HLL yn nodi bod y pwnc hwn wedi'i nodi yn ystod sawl sgwrs ddiweddar. Dywedodd Megan Harris (MH) fod Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) wedi derbyn arian i gefnogi rhaglenni newid ymddygiad.

**Cam Gweithredu: Megan Harris i gyflwyno adroddiad mewn cyfarfod PSB yn y dyfodol ar fentrau Iechyd Cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar newid ymddygiad.**

Cafwyd trafodaeth hefyd ynghylch dulliau eraill yr ALl o ymdrin â Theithio Llesol, ac yn benodol yr heriau o ran cyflawni'r ymrwymiadau a amlinellir yn y Siarter Teithio Iach o ystyried tirwedd a natur wledig Ceredigion o'i gymharu ag ardaloedd eraill. Holwyd a fyddai'n bosibl i sefydliadau gytuno ag ymrwymiadau penodol o fewn y Siarter, sy'n berthnasol i'r amgylchiadau yn eu hardaloedd.

Crynhodd HLL y byddai gweithredu'r Cynllun Teithio Rhanbarthol a Siarter Teithio Iach Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gyfochrog yn hanfodol er mwyn sicrhau'r effaith a'r cyfle mwyaf posibl.

| **41.7** | **Diweddariad y Cadeirydd:** |
|---|---|

- **Cyfarfod Cadeiryddion Creu Lleoedd**

Cadarnhaodd HLL, yn dilyn lansiad y rhaglen Llunio Lleoedd ar gyfer Llesiant yng Nghymru ym mis Mai 2024, y cynhaliwyd sesiwn Cadeiryddion BGC ddiwedd mis Tachwedd. Mynychodd HLL y sesiwn a rhoi trosolwg o waith BGC Ceredigion, a sut mae'r Bwrdd wedi cysylltu â'r rhaglen Creu Lleoedd hyd yma. Rhoddwyd diweddariadau hefyd gan Gadeiryddion BGC eraill o bob rhan o Gymru ar brosiectau parhaus yn eu priod feysydd. Nododd HLL fod anhawster yn parhau o amgylch gallu partneriaid i gymryd rhan yn y rhaglen Creu Lleoedd. Ar hyn o bryd mae BGC Ceredigion yn cefnogi'r rhaglen Dull Systemau Cyfan o Ymdrin â Phwysau Iach drwy Grwpiau Cyflenwi Llanbedr Pont Steffan ac Aberteifi.

- **Cludiant Cymunedol**

Nododd HLL fod CAVO yn gweithio gyda Cwmpas fel rhan o ddigwyddiad Catalydd ar gyfer Gofal ar 10 Rhagfyr, a fydd yn dod â'r gymuned ynghyd i helpu i lunio datrysiadau trafnidiaeth ar gyfer Ceredigion i'r dyfodol. Nod y drafodaeth yw datblygu syniadau trafnidiaeth newydd a fydd yn gwneud gwahaniaeth i iechyd, cyflogaeth a'r economi leol. Bydd y syniadau a gynhyrchir yn llywio cynlluniau i drawsnewid trafnidiaeth gymunedol yn uniongyrchol. Gwahoddodd HLL aelodau BGC i fynychu'r digwyddiad - Rhannwyd y ddolen i gofrestru drwy *Eventbrite* gyda'r aelodau cyn y cyfarfod.

**Cam Gweithredu: Rhannu adborth o'r digwyddiad Cludiant Cymunedol yn ystod cyfarfod nesaf y BGC.**

Yn unol â'r camau a drafodir yn y Traciwr Gweithgareddau, fe wnaeth HLL atgoffa'r aelodau am themâu posibl ar gyfer sesiynau sbotolau amrywiol cyfarfodydd sydd i ddod, gan gynnwys:

- Trafnidiaeth, mynediad at wasanaethau a theithio llesol
- Gwasanaethau Digidol
- Ffyrdd o weithio
- Medrau
- Gwaith y Bwrdd Rhanbarthol

Cynigiodd HLL fod aelodau'r BGC yn ystyried sefyllfa eu sefydliadau hwy cyn y cyfarfod nesaf i hwyluso trafodaeth sesiwn Sbotolau Ffyrdd o Weithio.

**Cam Gweithredu: Y Tîm Partneriaethau i sicrhau bod sesiynau sbotolau yn y dyfodol yn cael eu nodi ar yr Agenda a'u dosbarthu cyn cyfarfodydd y BGC fel y gall partneriaid ystyried eu mewnbynnau.**

| **41.8** | **Adborth o Weithdai Dull Systemau Cyfan ar gyfer Pwysau Iach a Diweddariad Trafodaethau gyda Phrosiect Dewi** |
|---|---|

DRAFT

Cyflwynodd Geinor Jones (GeJ) adroddiad cynnydd i'r grŵp; Cymerodd y Tîm Dull Systemau Cyfan (DSC) Pwysau Iach rhan yng nghyfarfod BGC mis Mawrth ac wedi hynny mynychodd gyfarfodydd grwpiau lles yn Llanbedr Pont Steffan ac Aberteifi, gan roi cyflwyniadau ar y DSC a throsolwg o'r prosiect.

Mae'r DSC yn annog ffordd wahanol o feddwl a gweithio, gan edrych ar y system yn ei chyfanrwydd. Trwy ddeall sut mae'r system yn gweithio, a'r rhannau ohoni, y nod yw darganfod y cyfleoedd gorau am newid a chytuno ynghylch sut y gellir cyflawni amgylchedd pwysau iach trwy weithio a gweithredu'n wahanol. Esboniodd GeJ fod Tîm DSC Pwysau Iach wedi cynnal sesiwn gweithdy yng nghyfarfodydd Lles yn Llanbedr Pont Steffan ac yng Ngrŵp Cyflenwi Aberteifi a gynhaliwyd ym mis Hydref, gyda'r nod o roi trosolwg o'r broses, y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud, a'r camau nesaf.

Nododd GeJ fod mwyafrif y gweithdy yn canolbwyntio ar ystyried 8 is-system flaenoriaeth bosibl, gyda'r nod cyffredinol o gytuno ar 1 is-system o ffocws erbyn diwedd y sesiwn. Yr 8 is-system bosibl a ystyriwyd oedd:

- Gweithgaredd corfforol cyn-ysgol ac yn yr ysgol
- Cyfleoedd hamdden ar gyfer gweithgarwch corfforol
- Teithio Llesol
- Bwyd Ysgol
- Hysbysebu a marchnata bwyd
- Fforddiadwyedd bwyd
- Argaeledd bwyd nad yw'n iachus
- Bwydo'r fron

Dechreuodd y sesiwn hefyd gyflwyno'r model *Three Horizons* fel rhan o drafodaethau. Gofynnwyd i'r ddau Grŵp Cyflawni ganolbwyntio'n benodol ar ble mae'r BGC a'i Grwpiau Cyflenwi yn cael ei dylanwadu fwyaf, a lle gallai cydweithio wneud y gwahaniaeth mwyaf. Nododd GeJ fod adroddiad o ganfyddiadau'r gweithdy yn y broses o gael ei greu, y gellir ei rannu maes o law. Roedd consensws pob grŵp ynghylch yr is-system bwysicaf fel a ganlyn:

**Grŵp Cyflawni Llanbedr Pont Steffan - Consensws:**
- Fforddiadwyedd Bwyd – 2 Grŵp
- Fforddiadwyedd Bwyd + Argaeledd Bwyd nad yw'n iachus – 1 Grŵp

**Grŵp Cyflenwi Aberteifi - Consensws:**
- Fforddiadwyedd Bwyd – 3 Grŵp

Cadarnhaodd GeJ fod y canfyddiadau hyn yn cyd-fynd â chanlyniadau 3 gweithdy arall a gynhaliwyd ar draws y rhanbarth – Gyda hyn mewn golwg, cynigiwyd yr is-system **Hygyrchedd Bwyd** i ffocysu arno wrth symud ymlaen a fydd yn cwmpasu fforddiadwyedd a hygyrchedd bwyd iach a bwyd nad yw'n iachus. Cydnabuwyd bod hyn yn dal i fod yn is-system fawr, ac y byddai angen gwneud gwaith pellach i'w gyfyngu - gofynnodd GeJ am ymrwymiad y BGC i'r flaenoriaeth is-system hon er mwyn i'r gwaith allu parhau. Tynnwyd sylw at y ffaith bod cysylltiadau â chamau gweithredu y cytunwyd arnynt eisoes yn y Cynllun Llesiant Lleol ar gyfer 2023-2028, yn benodol thema drawsbynciol Mynd i'r Afael â Chaledi a Thlodi, Colofn 2: Lles Cymdeithasol a Cholofn 3: Llesiant Amgylcheddol.

**Penderfyniad: Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau na gwrthwynebiadau - cytunodd y BGC i gefnogi *Hygyrchedd Bwyd* fel yr is-system ffocws.**

Esboniodd GeJ fod cynnwys y gymuned yn hanfodol i'r gwaith hwn, a bydd ymgysylltu trwy Grwpiau Cyflenwi Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan yn gweithredu fel peilot ar gyfer dyblygu ar draws y rhanbarth. Mae'r Tîm DSC Pwysau Iach yn gweithio gyda Phrosiect Dewi, sydd wrthi'n datblygu rhaglen Hyfforddi'r Hyfforddwr, a fydd yn caniatáu i aelodau pob Grŵp Cyflawni ddod yn fapwyr

asedau ym mhob cymuned. Mynegodd cyfanswm o 23 aelod hyd yma, ddiddordeb mewn bod yn rhan o'r gwaith hwn a gofynnodd GeJ i BGC ymrwymo i gyfranogiad gweithredol parhaus gan sicrhau bod y bobl cywir ynghlwm â hyn ac yn cymryd rhan yn y Grwpiau Cyflenwi. Anogodd HLL aelodau BGC i sicrhau bod cynrychiolaeth sefydliadol ym mhob un o gyfarfodydd y Grŵp Cyflawni yn briodol, ac i gysylltu â'r Tîm Partneriaethau pe bai angen newidiadau neu ychwanegiadau.

Yn olaf, nododd GeJ y bydd Rhwydwaith Dysgu rhanbarthol yn cael ei sefydlu i ddysgu am dulliau meddwl systemau, rhannu dysgu a dulliau ymarferol. Bydd rhagor o fanylion, gan gynnwys sut i gofrestr, i'w cael maes o law, a byddant yn cael eu dosbarthu gan y Tîm Partneriaethau.

**Cam Gweithredu: Y Tîm Partneriaethau i gylchredeg adroddiad gweithdai DSC Pwysau Iach, a manylion ar sut i ymuno â'r Rhwydwaith Dysgu rhanbarthol pan fydd rhagor o wybodaeth ar gael.**

| 41.9 | Diweddariadau Grŵp Cyflenwi BGC: |
|---|---|

i. Grŵp Cyflawni Llesiant yn Llanbedr Pont Steffan *(Greg Jones, CSC)*
Oherwydd cyfyngiadau amser, rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod cofnodion cyfarfod mis Hydref y Grŵp Cyflawni Llesiant yn Llanbedr Pont Steffan wedi'u rhannu gyda'r adroddiadau cyn y cyfarfod.

---

ii. Llesiant yn Aberteifi (Hazel Lloyd Lubran, CAVO)
Oherwydd cyfyngiadau amser, rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod cofnodion cyfarfod mis Hydref y Grŵp Cyflawni Llesiant Aberteifi wedi'u rhannu gyda'r adroddiadau cyn y cyfarfod.

---

iii. Grŵp Cyflawni Hinsawdd a Natur (Steffan Gruffudd, CSC)
Oherwydd cyfyngiadau amser, rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod diweddariad ar statws presennol y Grŵp Cyflenwi Hinsawdd a Natur wedi'i rannu gyda'r adroddiadau cyn y cyfarfod.

| 41.10 | Adroddiad Adborth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gwaith Teg |
|---|---|

Nododd y Cynghorydd Catrin Davies (CD) yn dilyn trafodaeth yng nghyfarfod BGC ym mis Gorffennaf ynghylch Gwaith Teg, fod Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi ei sefydlu a'i hwyluso gan yr Is-grŵp Tlodi. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 19 Tachwedd 2024. Cadarnhaodd CD fod presenoldeb a chyfraniadau da gan ystod o gynrychiolwyr Adnoddau Dynol a/neu Gaffael i'r cyfarfod o'r sefydliadau canlynol: Cyngor Sir Ceredigion (CSC), Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC), CAVO, Coleg Ceredigion, Heddlu Dyfed-Powys (HDP), yr Adran Gwaith a Phensiynau (AGP), yr Awdurdod Lleol a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh). Bydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Iechyd Cyhoeddus BIPHDd yn mynychu cyfarfodydd yn y dyfodol. Defnyddiwyd ystafelloedd trafod i drafod a nodi arferion cyfredol ac awgrymu cyfleoedd i wella.

Yn seiliedig ar ganlyniadau'r trafodaethau, nodwyd nifer o argymhellion (a amlinellwyd yn y blaen-adroddiad a rannwyd cyn y cyfarfod) i'w hystyried gan y BGC. Bydd y camau nesaf ar gyfer y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys:

- Cynnal ail gyfarfod ym mis Chwefror 2025 i roi adborth o gyfarfod y BGC, trafod yr argymhellion ymhellach, nodi heriau a thrafod ffyrdd o oresgyn y rhain. Bydd gwaith yn dechrau ar Siarter ddrafft i nodi ymrwymiad BGC Ceredigion i Waith Teg.
- Cyfarfod terfynol i'w gynnal ym mis Mai 2025 i nodi ffyrdd o fonitro, gwerthuso effaith, a chymeradwyo Siarter ddrafft yn nodi ymrwymiad y BGC i Waith Teg.
- Cyflwyno'r Siarter ddrafft i aelodau'r BGC i gytuno iddo, gyda'r disgwyliad y bydd yr ymrwymiadau o fewn y Siarter wedi'u cyflawni erbyn mis Mawrth 2028, pan fydd y Cynllun

Llesiant presennol yn dod i ben. Os cytunir arno, bydd monitro a gwerthuso yn digwydd fel rhan o Adroddiad Blynyddol BGC Ceredigion.

Oherwydd nifer yr argymhellion a gyflwynwyd, awgrymodd HLL fod y rhain yn cael eu cylchredeg yn dilyn y cyfarfod i'r aelodau eu hystyried ymhellach, ac i unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau gael eu dychwelyd erbyn 16 Rhagfyr. Yna gellir ystyried unrhyw adborth cyn cyfarfod nesaf y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ym mis Chwefror 2025.

**Cam Gweithredu: Y Tîm Partneriaethau i gylchredeg argymhellion cyfarfod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gwaith Teg, i'r aelodau i ymateb iddo erbyn 16 Rhagfyr 2024 gyda sylwadau neu wrthwynebiadau i'r argymhellion.**

| **41.11** | **Adborth gan Bwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion** |
|---|---|

Nododd y Cynghorydd Wyn Evans (WE) y prif bwyntiau sy'n codi o'r trafodaethau a gynhaliwyd mewn perthynas â'r BGC yn y Pwyllgor Trosolwg a Chydlynu Craffu diweddaraf CSC a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2024, sef:

- Mynegodd y Cadeirydd ei longyfarchiadau i'r Tîm ar Adroddiad Blynyddol rhagorol y Cynllun Llesiant Lleol ar ffurf fideo.
- Llongyfarchodd y Cadeirydd brosiect ARFOR am ei waith sy'n parhau.
- Cadarnhawyd y bydd sylwadau a wnaed yn y cyfarfod ynghylch tynnu taliadau tanwydd gaeaf yn cael eu trosglwyddo i'r Is-grŵp Tlodi BGC. Mewn ymateb cadarnhawyd gan swyddogion bod y grŵp yn mynd ati i ystyried ac ymateb i newidiadau fel hyn yn barhaus. Nodwyd hefyd bod yr Is-grŵp Tlodi wedi'i longyfarch yn ddiweddar ar ei waith a bod y dangosfwrdd caledi yn benodol wedi derfyn canmoliaeth fel arfer da ledled Cymru.
- Roedd yr Aelodau'n siomedig o nodi bod nifer yr ymatebion a dderbyniwyd i ymgynghoriad diweddar y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn isel. Ail-bwysleisiodd yr Aelodau eu pryder bod ymgynghoriadau yn costio'n ddrud i Sefydliadau'r Sector Cyhoeddus.

Diolchodd HLL i WE am ei ddiweddariad, gan ail-bwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu â'r cyhoedd, a sicrhau bod cymunedau'n cymryd rhan wrth wneud penderfyniadau.

| **41.12** | **Unrhyw fusnes arall** |
|---|---|

Ni chodwyd unrhyw fusnes arall gan bartneriaid. Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu hamser a'u cyfraniadau.

Daeth y cyfarfod i ben am 4pm.

| | **Dyddiad y cyfarfod nesaf:**<br>3 Mawrth 2025 am 14:00-16:00 ( Hybrid) |
|---|---|

| **Cofnod o'r camau gweithredu sy'n parhau** | | |
|---|---|---|
| **a)** | Cadw'r eitem Digwyddiadau Gwybodaeth y Cynllun Lles fel eitem Agenda sefydlog, a'r Tîm Partneriaethau i ystyried a ellir defnyddio calendr Google yn lle'r ddogfen Rhestr Digwyddiadau. | Tîm Partneriaethau |
| **b)** | Ann Elias i rannu manylion ar gyfer ymgynghoriad y Cynllun Teithio Llesol; y Tîm Partneriaethau i gylchredeg i aelodau BGC. | Ann Elias,<br>Tîm Partneriaethau |
| **c)** | Gwahodd Ann Elias i gyfarfod o'r BGC yn y dyfodol i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Teithio Llesol yn dilyn yr ymgynghoriad. | Tîm Partneriaethau |
| **ch)** | Megan Harris i gyflwyno adroddiad mewn cyfarfod PSB yn y dyfodol ar | Megan Harris |

| | | |
|---|---|---|
| | fentrau Iechyd Cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar newid ymddygiad. | |
| **d)** | Rhannu adborth o'r digwyddiad Cludiant Cymunedol yn ystod cyfarfod nesaf y BGC. | Hazel Lloyd Lubran |
| **dd)** | Y Tîm Partneriaethau i sicrhau bod sesiynau sbotolau yn y dyfodol yn cael eu nodi ar yr Agenda a'u dosbarthu cyn cyfarfodydd y BGC fel y gall partneriaid ystyried eu mewnbynnau. | Tîm Partneriaethau |
| **e)** | Y Tîm Partneriaethau i gylchredeg adroddiad gweithdai DSC Pwysau Iach, a manylion ar sut i ymuno â'r Rhwydwaith Dysgu rhanbarthol pan fydd rhagor o wybodaeth ar gael. | Tîm Partneriaethau |
| **f)** | Y Tîm Partneriaethau i gylchredeg argymhellion cyfarfod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gwaith Teg, i'r aelodau i ymateb iddo erbyn 16 Rhagfyr 2024 gyda sylwadau neu wrthwynebiadau i'r argymhellion. | Tîm Partneriaethau |

DRAFT